

IS-GWMNIAU'R BRIFYSGOL POLISI A GWEITHDREFNAU

Adolygwyd	Dyddiad	Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid	Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau
1.	19 Mehefin 2020	Cyhoeddiad cyntaf	
2.	14 Mehefin 2021	Adolygwyd ac ail-gymeradwywyd	
3.	17 Medi 2021	Adolygiad pellach ac ail-gymeradwywyd	

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Dirprwy Ysgrifennydd a Phennaeth Gwasanaethau Llywodraethu	Prif Swyddog Gweithredu	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	17 Medi 2021

Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd

Polisi a Threfniadau Is-gwmnïau'r Brifysgol

1. Rhagarweiniad

Fel sefydliadau addysg uwch eraill, mae Prifysgol Bangor wedi sefydlu sawl is-gwmni sy'n bodoli i gynnal a rheoli gweithgareddau ac adnoddau penodol lle mae'n fuddiol eu gwahanu oddi wrth y brifysgol.

Yn rhinwedd ei pherchnogaeth, cyfranddaliad neu aelodaeth o'r cwmni, mae'r brifysgol yn cadw diddordeb mewn sicrhau bod y cwmni'n cynnal llywodraethu da a chywirdeb ariannol. Mae methiant yn y meysydd hyn yn peri risg posib i enw da'r brifysgol.

2. Cwmpas

Bydd y polisi hwn yn berthnasol i ffurfio, diddymu a llywodraethu holl is-gwmnïau Prifysgol Bangor. Wrth gymeradwyo ffurfio is-gwmni, a buddsoddi ynddo, bydd aelodau Cyngor y Brifysgol, fel ymddiriedolwyr y brifysgol, yn rhoi sylw dyledus i ddarpariaeth y polisi hwn a'i drefniadau.

Mae Cynllun Dirprwyo a Phwerau Penderfynu'r brifysgol yn nodi bod angen cymeradwyaeth y Cyngor i greu mentrau neu gwmnïau newydd, a chymeradwyo gwerthu ecwiti neu drosglwyddo busnes yng nghwmnïau'r brifysgol. Rhaid gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chyllid is-gwmni yn unol â darpariaethau'r cynllun. Caiff is-gwmnïau sy'n eiddo llwyr i'r brifysgol eu llywodraethu gan eu byrddau eu hunain o ran eu gweithrediadau. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir y bydd unrhyw ddirprwyo a weithredir ganddynt yn gyson â'r rhai a amlinellir i'r brifysgol yn y cynllun.

Mae'r brifysgol wedi sefydlu fframwaith rheoli y mae'n rhaid iddynt weithredu o'i fewn. Mae hwn yn cynnwys yr elfennau canlynol:

A. Aelodaeth

- a) Penodir yr holl gyfarwyddwyr anweithredol a gweithredol, a'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd, gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ar ran y Cyngor.
- b) Pan fo'n berthnasol bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn penodi un aelod o'r Cyngor i wasanaethu ar y Bwrdd.
- c) Efallai y bydd cadeirydd a/neu reolwr gyfarwyddwr is-gwmni eisïau gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.
- d) Wrth recriwtio cyfarwyddwyr gweithredol neu uwch staff y cwmni, rhaid dilyn gofynion yswirwyr y cwmni (gan gynnwys, mewn rhai achosion, darparu o leiaf ddau dystlythyr ysgrifenedig) a rhaid cadw at brosesau recriwtio arferol y brifysgol, gan gynnwys diwydrwydd dyladwy. Dylai'r panel recriwtio fel rheol gynnwys uwch aelod o'r brifysgol, nad yw'n gyfarwyddwr y cwmni (e.e. swyddog enwebedig y brifysgol).
- e) Pedair blynedd fydd cyfnod swydd y cadeirydd. Bydd y cadeirydd yn gymwys i gael ei ailbenodi am un cyfnod arall o bedair blynedd, yn amodol bob amser ar uchafswm cyfnod o wyth mlynedd ar y bwrdd.
- f) Caiff cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol eu penodi gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu am gyfnod cychwynnol o dair blynedd a gall y bwrdd eu cyflwyno i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i'w hailbenodi am un cyfnod ychwanegol o dair blynedd.¹
- g) Y brifysgol fydd â'r mwyafrif o aelodau ar y bwrdd.²

¹ Mae swydd Rheolwr Gyfarwyddwr ac Ysgrifennydd y Cwmni wedi eu heithrio o'r cyfyngiad 8 mlynedd.

- h) Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a fydd yn penderfynu ar nifer yr aelodau sydd eu hangen ar fwrdd penodol.
- i) Bydd y cadeirydd a'r rheolwr gyfarwyddwr yn gweithio i sicrhau bod y bwrdd yn defnyddio meini prawf dethol sy'n sicrhau aelodaeth amrywiol o'r bwrdd.
- j) Bydd y bwrdd yn nodi dirprwy gadeirydd a fydd yn gwasanaethu yn absenoldeb y cadeirydd.

B. Gweithrediad y Bwrdd

- a) Bydd yr erthyglau yn pennu terfynau ar eu cylch gweithredu na ellir eu diwygio heb gydsyniad cyfranddalwyr a'r brifysgol.
- b) Rhaid i gwmnïau gyflwyno cynllun busnes pob blwyddyn a fydd yn nodi sut mae'r cwmni'n diffinio ei amcanion ac yn cyflawni ei nodau. Bydd y cynllun yn destun adolygiad gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a chytunir ar gyllideb ohono.
- c) Efallai y gofynnir i gwmnïau o bryd i'w gilydd ddarparu cynllun strategol sy'n diffinio strategaeth a chyfeiriad y cwmni, neu ddiweddariad o'i gynllun strategol.
- d) Gwneir yr holl drafodion ariannol trwy'r Swyddfa Gyllid, gan gynnwys y gyflogres, taliadau, prosesu incwm, arian parod, bancio etc. Bydd rhaid wrth gefnogaeth y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth i wneud unrhyw gynnydd mewn cyfleusterau benthyg neu gredyd.

Mae materion sy'n gofyn am ddatrysiad cyfranddalwyr naill ai o dan yr Erthyglau Cymdeithasu, y Cytundeb Cyfranddalwyr neu'r Ddeddf Cwmnïau (Atodlen 1) ar gyfer is-gwmnïau bach wedi eu dirprwyo i'r Is-ganghellor (a all ddirprwyo ymhellach). Felly mewn perthynas ag is-gwmnïau llai eu maint, bydd Pwyllgor Gweithredu'r brifysgol yn gyfrifol am ystyried a gweithredu'r egwyddorion sydd yn y polisi hwn.

C. Cyfarfodydd

- a) Bydd y bwrdd yn cyfarfod wyneb yn wyneb, neu'n rhithiol, yn ôl cyfarwyddyd cadeirydd y bwrdd.
- b) Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd yw 50% o'r aelodaeth ac un, ar yr amod bod aelodau'r brifysgol yn y mwyafrif.
- c) Disgwylir i aelodau'r bwrdd fynd i ddwy ran o dair o leiaf o'r cyfarfodydd arferol a drefnir bob blwyddyn academaidd. Gellir diswyddo aelodau sy'n methu â mynd i gyfarfodydd yn rheolaidd yn dilyn argymhelliad i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

3. Diffiniadau

- [a] O dan Ddeddf Cwmnïau 2006 mae cwmni yn is-gwmni i "riant gwmni" neu "gwmni daliannol" os yw'r rhiant gwmni
 - yn meddu ar fwyafrif yr hawliau pleidleisio ynddo;
 - yn aelod ohono a chyda'r hawl i benodi neu ddiswyddo mwyafrif ei fwrdd cyfarwyddwyr;
 - yn aelod ohono ac yn rheoli mwyafrif yr hawliau pleidleisio ynddo ei hun.
- [b] Mae cwmni yn is-gwmni "dan berchnogaeth lwyr" cwmni arall os nad oes ganddo aelodau ac eithrio'r rhai o'r rhiant gwmni, neu bersonau sy'n gweithredu ar ran y cwmni hwnnw yn unig.
- [c] Mae'r polisi hwn yn cyfeirio'n bennaf at is-gwmnïau sy'n eiddo llwyr i'r brifysgol, sy'n adlewyrchu strwythur a statws cyfredol cwmnïau Prifysgol Bangor.

² Ymhlith y cyfarwyddwyr sy'n dod o fewn categori cyfarwyddwyr y brifysgol, mae staff y brifysgol, ac aelodau'r Cyngor a'i is-bwyllgorau. Pan fydd cyfarwyddwr prifysgol yn peidio â bod yn aelod staff neu'n aelod o'r Cyngor neu ei is-bwyllgorau, bydd yr unigolyn yn peidio â bod yn gyfarwyddwr prifysgol, ac yn aelod o'r bwrdd.

4. Egwyddorion

Mae is-gwmni yn endid cyfreithiol ar wahân i'r brifysgol. Mae'r brifysgol yn cydnabod annibyniaeth y bwrdd cyfarwyddwyr sydd, cyhyd â bod y cwmni'n parhau i fod yn ddiddyled, â phrif ddyletswydd i weithredu er budd gorau'r cwmni. Wrth nodi'r pwynt hwn fodd bynnag, byddai'r brifysgol yn disgwyl i'r egwyddorion canlynol fod yn berthnasol i fwrdd cyfarwyddwyr ei his-gwmnïau sydd dan berchenogaeth lwyr y brifysgol.

- a) Gweithredu yn unol â chyfansoddiad y cwmni (lle bo un yn bodoli) ac ymarfer pwerau dim ond at y diben y rhoddir hwy iddo;
- b) Hyrwyddo llwyddiant y cwmni er budd yr aelodau yn gyffredinol;
- c) Ymarfer barn annibynnol;
- d) Ymarfer gofal, medr a diwydrwydd rhesymol;
- e) Osgoi gwrthdaro buddiannau;
- f) Peidio â derbyn buddion gan drydydd parti oherwydd eu bod yn gyfarwyddwr; a
- g) Datgan diddordeb mewn trafodiad neu drefniant arfaethedig gyda'r cwmni yn unol â Pholisi Datganiad Budd y brifysgol.

Dylai'r brifysgol a'r cwmni sicrhau'n barhaus bod y cwmni'n cefnogi nodau strategol y brifysgol, a bod y targedau perfformiad allweddol blynyddol a osodir gan y brifysgol i'r cwmni yn berthnasol ac yn cyd-fynd. Bydd dull a threfniadau adolygu'r targedau a'r perfformiad ynghyd â chymeradwyo'r gyllideb, wedi eu nodi yng nghytundeb y cyfranddalwyr.

Ar ôl sefydlu'r cwmni, bydd cytundeb y brifysgol â'r cyfarwyddwyr fel rheol yn cael ei roi naill ai gan y Cyngor neu'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn dibynnu ar bolisïau, trefniadau a Chynllun Dirprwy a Phwerau Penderfynu'r brifysgol. Wedi hynny, bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn cytuno i unrhyw newidiadau i gyfarwyddwr is-gwmni ar ran y Cyngor.

Bydd y brifysgol yn penodi o leiaf un swyddog enwebedig i'r cwmni ac mae'r swyddogaeth hon wedi ei nodi yn Adran 7 isod.

5. Proses Sefydlu Is-gwmni Prifysgol Bangor

Dylai'r achos busnes dros sefydlu is-gwmni ddeillio o aelod o Bwyllgor Gweithredu'r brifysgol a chael ei noddi gan yr aelod hwnnw. Pan fydd y cynnig yn ymwneud â choleg penodol, disgwylir mai'r dirprwy is-ganghellor/deon perthnasol fydd y noddwr.

Pan fydd y cynnig i sefydlu is-gwmni yn ganlyniad project neu fenter strategol (e.e. sefydlu campws ategol) bydd sefydlu'r cwmni yn rhan o gynllun busnes ehangach, a ystyrir trwy'r llwybrau cymeradwyo priodol, ac mae'n rhaid iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.

Dylid anfon y cynnig amlinellol i sefydlu is-gwmni at y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio a fydd yn cysylltu â'r Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i sicrhau y gweithredir diwydrwydd dyladwy priodol, a chraffu ariannol a chraffu adnoddau. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys ystyried:

- Ai sefydlu is-gwmni yw'r cyfrwng mwyaf priodol i'r gweithgaredd arfaethedig;
- A yw goblygiadau ariannol, staffio, llywodraethu a chyfreithiol y cynnig wedi eu hystyried yn briodol
- A oes angen cyngor cyfreithiol allanol i gefnogi sefydlu'r is-gwmni;

Bydd y materion allweddol y dylid eu penderfynu ar y cam hwn o'r broses, cyn cymeradwyo, yn cynnwys:

- Y cyfarwyddwyr a'r cyfranddalwyr;
- Y cyfalaf cyfranddaliadau;
- Darpariaethau penodol sy'n ofynnol yn yr erthyglau cymdeithasu.

Cyn cwblhau'r cynnig, ymgynghorir â'r Prif Swyddog Marchnata/Is-lywydd Rhyngwladol mewn perthynas â materion brandio, gan gynnwys enw arfaethedig yr is-gwmni.

Ar ôl cwblhau'r camau a amlinellir uchod, bydd y Pwyllgor Gweithredu yn ystyried y cynnig a rhaid i unrhyw adborth gan y Pwyllgor Gweithredu gael ei ystyried cyn cyflwyno'r achos busnes a'r papur i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Rhaid i'r cynnig i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau gynnwys argymhelliad gan y Pwyllgor Gweithredu. Ar ôl i'r pwyllgor ystyried y cynnig, argymhellir y cynnig a'r cynllun busnes i'r Cyngor.

Ni chynhelir y broses gofrestru i ymgorffori is-gwmni tan fydd y Cyngor wedi rhoi eu cymeradwyaeth.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn gyfrifol am wneud yr holl drefniadau i gofrestru'r is-gwmni fel sy'n ofynnol gan Dŷ'r Cwmnïau. Ni all is-gwmni weithredu nes bod y cofrestrydd cwmnïau wedi cyhoeddi ei dystysgrif ymgorffori, a bod y Cyfarwyddwr Cyllid wedi cadarnhau y gall y cwmni ddechrau gweithredu.

6. Cyfarwyddwyr, Cyfranddalwyr a Gweithrediadau Cwmni

- a) Dylid rhoi sesiwn gynefino i gyfarwyddwyr sydd newydd eu penodi i'w galluogi i ymgysylltu'n llawn â gwaith y cwmni. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu yn sicrhau bod cynefino a hyfforddiant parhaus priodol yn cael ei roi i gyfarwyddwyr ynglŷn â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, yn ôl yr angen.
- b) Dylai fod gan gyfarwyddwyr anweithredol a chyfarwyddwyr gweithredol ddisgrifiadau clir o'u swyddogaeth, ynghyd â dealltwriaeth fanwl a chynhwysfawr o weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys yr heriau a'r cyfleoedd y mae'n eu hwynebu.
- c) Dylai cyfarwyddwyr weithredu yn unol â chyfansoddiad y cwmni ac ymarfer pwerau dim ond at y diben y rhoddir hwy; Dylent hyrwyddo llwyddiant y cwmni er budd yr aelodau yn gyffredinol;
- d) Dylai cyfarwyddwyr lenwi ffurflenni twyll a gwrth-lwgrwobrwyo bob blwyddyn;
- e) Bydd gan y brifysgol yr hawl i benodi cyfarwyddwr prifysgol, waeth beth ei gyfranddaliad;
- f) Dylai'r cwmni gadw'r un archwilwyr allanol â'r brifysgol a dylai gadw at yr un flwyddyn ariannol, oni chytunir yn benodol â'r brifysgol.
- g) Dylai'r cwmni gadw cofrestr risg;
- h) Dylai'r cwmni gael yswiriant priodol, fel rheol gyda'r un darparwyr â'r brifysgol.
- i) Dylai'r cwmni fod â chytundeb lefel gwasanaeth yn ei le mewn perthynas â defnyddio unrhyw rai o asedau'r brifysgol e.e. Adnoddau Dynol a'r gyflogres, i sicrhau eu bod yn cael eu darparu ar delerau masnachol.

- j) Dylai'r cwmni ymgysylltu'n flynyddol â'r brifysgol i gwblhau adolygiad o aliniad strategol, i osod targedau perfformiad allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac adolygu perfformiad yn erbyn targedau'r flwyddyn flaenorol. Bydd yr adolygiad blynyddol fel rheol yn cyd-fynd â pharatoi'r gyllideb i'r flwyddyn sydd i ddod.
- k) Dylai'r cwmni gynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth gan gynnwys i ba raddau y cyflawnwyd unrhyw dargedau perfformiad allweddol penodol i'r flwyddyn, a chofnodion presenoldeb y cyfarwyddwyr yng nghyfarfodydd y bwrdd.
- l) Dylai'r cwmni roi gwybod i'r Prif Swyddog Gweithredol am unrhyw fater o arwyddocâd.
- m) Dylai cyfarwyddwyr cwmni barhau i fynd i hyfforddiant rheolaidd (e.e. mewn perthynas â dyletswyddau cyfarwyddwyr, a llywodraethu corfforaethol) a ddarperir naill ai gan y brifysgol, gan y cwmni neu gan ddarparwr arall fel bo'n briodol ac yn berthnasol.
- n) Dylai'r cwmni, fel sefyllfa ddiodyn, fabwysiadu holl bolisiau a gweithdrefnau'r brifysgol. Gall y cwmni ddatblygu ei bolisiau a'i weithdrefnau ei hun, ond dylai'r pwyllgor brifysgol priodol gymeradwyo'r rhain, gan ddarparu rhesymau clir dros gymhwyso'r gwriad hwn.
- o) Caiff y gwaith o reoli'r is-gwmni o ddydd i ddydd ei ddirprwyo i'r bwrdd cyfarwyddwyr, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodir gan yr erthyglau cymdeithasu a chytundeb cyfranddalwyr lle bo hyn yn berthnasol. Mae pŵer cyfarwyddwyr i weithredu wedi ei ymddiried yn y bwrdd cyfan, a fydd yn gweithredu pwerau o'r fath trwy basio penderfyniadau yng nghyfarfodydd y bwrdd.

7. Swyddog Enwebedig y Brifysgol

- a) Bydd y brifysgol yn penodi o leiaf un swyddog enwebedig i bob is-gwmni a fydd yn uwch aelod o staff y brifysgol.
- b) Bydd swyddog enwebedig y brifysgol:
 - a. yn meddu ar hawliau llawn i fynd i holl gyfarfodydd bwrdd y cwmni (a gweithgorau) a derbyn yr holl bapurau a gyflwynir i'r bwrdd.
 - b. yn codi materion neu roi sylwadau yng nghyfarfodydd y bwrdd pan fo'n briodol a gall adrodd gwybodaeth yn ôl i'r brifysgol yn ôl yr angen a gweithredu'n gyffredinol i sicrhau cyfathrebu da rhwng y cwmni a'r brifysgol.
 - c. ddim yn aelod o'r bwrdd, na gydag unrhyw hawliau pleidleisio yng nghyfarfodydd y bwrdd, ond bydd yn sicrhau nad oes unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau o ran trosglwyddo gwybodaeth yn ôl i'r brifysgol.
 - d. yn sicrhau bod y cwmni yn gweithredu o fewn ei gyfansoddiad, ac yn codi unrhyw faterion cysylltiedig gyda'r nod o sicrhau eu bod yn briodol
 - e. yn adolygu a thrafod gyda'r cyfarwyddwyr pan fo hynny'n briodol, unrhyw wybodaeth reoli bob mis ynglŷn â pherfformiad y cwmni;
 - f. yn rhoi gwybod i'r Prif Swyddog Gweithredol am unrhyw fater o arwyddocâd sy'n effeithio'r cwmni.

8. Trefn Ddiddymu Is-gwmni Prifysgol Bangor

Mae'r dull gweithredu a nodir yn y polisi hwn wedi ei gynllunio i sicrhau bod y brifysgol ddim ond yn buddsoddi mewn is-gwmnïau sydd â siawns well na rhesymol o lwyddo. Yn ogystal, dylai mabwysiadu'r egwyddorion a gynhwysir yn y polisi hwn sicrhau bod y Cyngor, naill ai'n uniongyrchol neu trwy ei is-bwyllgorau, a/neu'r Pwyllgor Gweithredu yn cadw goruchwyliaeth ddigonol o'r is-gwmnïau, neu'n parhau i gael gwybodaeth am unrhyw fygythiadau i hyfywedd yr is-gwmni. Bwriad y polisi hwn, ochr yn ochr â'r Cynllun Awdurdod Dirprwyedig, yw gwarchod rhag sefyllfaoedd lle mae'r brifysgol yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i is-gwmni sy'n methu pan oedd yn amlwg bod methiant yr is-gwmni yn debygol.

Y Cyngor/Pwyllgor Gweithredu/swyddogion fydd yn penderfynu p'un a yw er budd gorau'r brifysgol i drefnu terfyniad yr is-gwmni neu werthu'r busnes fel busnes gweithredol i drydydd parti. Mae diogelu asedau'r brifysgol rhag credydwy'r is-gwmni yn gorbwysu ystyriaethau megis pryderon ynghylch gweithwyr yr is-gwmni neu ddifrod i enw da sy'n deillio o ddiddymu'r is-gwmni.

9. Rhagor o wybodaeth

Am arweiniad cyffredinol am fanylion y polisi hwn, cysylltwch â'r Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu.